



Y Llys Gwarchod – ffioedd

Rhan A – Am y daflen hon

Mae'r daflen hon yn nodi'r ffioedd sydd i'w talu ar gyfer ceisiadau i'r Llys Gwarchod o 24 Gorffennaf 2018.

Rhan B – Ffioedd i'w talu o 24 Gorffennaf 2018

- **Ffi gwneud cais – £385:** i'w thalu wrth wneud cais i gychwyn achos llys neu wrth wneud cais am ganiatâd i gychwyn achos.
- **Ffi apelio – £320:** i'w thalu wrth ffeilio hysbysiad apelydd yn apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y llys neu wrth geisio caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad gan y llys.
- **Ffi gwrandawriad – £500:** i'w thalu pan fo'r llys wedi cynnal gwrandawriad i benderfynu ar y cais ac wedi gwneud penderfyniad, datganiad neu orchymyn terfynol.
- **Ffi copi o ddogfen – £5:** i'w thalu wrth wneud cais am gopi o ddogfen sydd wedi'i ffeilio yn ystod achos llys.

Ni fydd ffi i'w thalu ar gyfer ceisiadau a gwrandawiadau sy'n gysylltiedig â gwrthwynebu cofrestru atwrneiaethau parhaus ac atwrneiaethau arhosol; os yw'r ceisydd yn atwrnai, neu'n unigolyn sydd â hawl i gael ei hysbysu am y cais i gofrestru. Os chi yw'r unigolyn â hawl i gael eich hysbysu, byddwch wedi derbyn un ai hysbysiad LP3 neu hysbysiad EP1PG (EPA)

Rhan C – Cwestiynau ac atebion am ffioedd

Pwy sy'n gyfrifol am dalu'r ffioedd?

- **Ffi gwneud cais, Ffi apelio a Ffi gwrandawriad:** i'w talu gan y sawl sy'n gwneud y cais neu'n apelio – oni bai eich bod yn gwneud cais am esemptiad rhag talu ffi neu am ddileu ffi, rhaid ichi anfon y ffi gyda'r cais, hyd yn oed os ydych yn bwriadu cael y ffi'n ôl gan y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- **Ffi copi o ddogfen:** i'w thalu gan y sawl sy'n gofyn am gopi o'r ddogfen

Sut y dylid talu ffioedd?

Mae ffioedd i'w talu â siec. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a dylai llythyr esboniadol gyda'r siec gynnwys rhif yr achos (os ydych yn ei wybod) a'ch manylion cysylltu

Alla i gael y ffi yn ôl y gan y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

Mae hyn yn dibynnu ar y math o gais. Os yw'ch cais yn ymwneud ag eiddo neu faterion yr unigolyn, gallwch gael y ffi yn ôl oddi wrth yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Os yw'r cais yn ymwneud â mater lles personol, rhaid ichi dalu'r ffi eich hun. Ond, os ydych chi eisoes yn ddirprwy neu'n atwrnai i'r unigolyn, gallwch gael unrhyw dreuliau yr ydych wedi'u talu wrth gyflawni eich dyletswyddau yn ôl, gan gynnwys ffioedd llys, hyd yn oed os yw'ch cais yn ymwneud â mater lles personol

Efallai y bydd y llys yn penderfynu peidio â chaniatáu i'r ceisydd gael y ffi a'r costau yn ôl gan y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu gall benderfynu y dylai parti arall yn y cais i'r llys dalu'r ffioedd a'r costau. Os ydych am i'r llys wneud penderfyniad ynghylch talu ffioedd neu gostau, dylech ofyn hynny yn eich cais.

Ydy ffioedd yn daladwy os yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn marw?

- **Ffi gwneud cais a Ffi apelio:** os bydd y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn marw o fewn pum niwrnod i gyflwyno'r cais neu'r apêl, bydd y ffi'n cael ei had-dalu.
- **Ffi gwrandawriad llys:** os bydd y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn marw, ni fydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal a does dim ffi i'w thalu.

Beth os na alla i neu'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef fforddio talu'r ffi?

Efallai na fydd yn rhaid ichi dalu ffi oherwydd eich sefyllfa ariannol. Mae'r ffurflen gais 'COP44A – Gwneud cais am gymorth gyda ffioedd y Llys Gwarchod' ar gael gan y Llys Gwarchod neu ar-lein yn www.gov.uk/court-and-tribunal-forms

Rhan D – Cysylltiadau Defnyddiol

Y Llys Gwarchod

www.gov.uk/apply-to-the-court-of-protection

Cyngor ar Bopeth

www.adviceguide.org.uk/ neu edrychwch yn yr Yellow Pages am eich swyddfa lleol

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

www.gov.uk/make-court-claim-for-money/overview

Ymwadiad

Gall staff y llys eich helpu gyda gweithdrefnau'r llys a'ch helpu i lenwi'r ffurflen ond ni allant roi cyngor cyfreithiol i chi na dweud wrthy'ch chi beth i'w ysgrifennu.